# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

## Agenda
(107)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter (30 munud)**

**Cynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16, 12.20(i) a 27.7 i ganiatáu i'r ddwy eitem nesaf o fusnes gael eu trafod (5 munud)**
**NDM5153 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16, Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 27.7 er mwyn caniatáu i NNDM5151 ac NNDM5152 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 22 Ionawr 2013.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân.**

**5. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

**(Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 (15 munud)**
**NNDM5151 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 – Saesneg yn unig
Memorandwnm Esboniadol – Saesneg yn unig

**6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 (15 munud)**
**NNDM5152 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 – Saesneg yn unig
Memorandwm Esboniadol – Saesneg yn unig

**7. Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 (15 munud)**

**NDM5141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Gynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2012.

**Dogfennau Ategol**
Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *dim pwyntiau adrodd*

**8. Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (90 munud)**
Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

**1.Hysbysu am sgoriau hylendid bwyd a'u cyhoeddi**
12, 1, 13, 2, 14, 3

**2.Cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar ddeunydd hyrwyddo**
9, 21, 22, 10, 23, 11, 25, 5, 8

**3. Y gofyniad i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd lluosog**
4, 7

**4. Troseddau**
24, 26, 27

**5. Dyletswyddau yr Asiantaeth Safonau Bwyd**
15, 16, 17, 18, 19

**6. Y defnydd o dderbyniadau cosb benodedig**
6

**7.Diwygio cyfnodau i gydymffurfio â dyletswyddau**
20

**Dogfennau Ategol**
Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o welliannau wedi'u didoli
Grwpio Gwelliannau

**9. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

**10. Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn (60 munud)**

**NDM5141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2011-12, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2013.

Gellir gweld yr adroddiad drwy glicio ar y ddolen hon:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=242061&ds=1/2013

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Cam 3).

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau clir o fonitro urddas a gofal i bobl hyn o ganlyniad i 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

Gellir gweld y safonau drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.nhswalesgovernance.com/display/Home.aspx?a=130&s=2&m=0&d=0&p=0

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Llais, Dewis a Rheolaeth' i ddatblygu gwasanaeth eirioli cadarn ac annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.olderpeoplewales.com/wl/news/news/12-09-18/Voice_Choice_and_Control.aspx

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 23 Ionawr 2013